# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER**
**11 Ionawr 2023**
**AM 7.00 TRWY ZOOM**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng I Roberts, P Roberts, R G Parry, S Jones, E Law-Shui Nicholson, J Earnshaw, H N Evans, G Owen (Clerc), | |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Cyng C Thomas, G Parry, D Fowlie (Cyngor Sir) | |
| 1 | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. |
| | |
| 2 | **DATGAN DIDDORDEB** – Cyng I Roberts a P Roberts, parcio Bro Mynydd a tap Salem |
| | |
| 3 | **DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 09.11.22 - Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng P Roberts yn eilio. |
| | |
| 4 | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| 4.1 | **Lon y Fynwent** – Mae R G Hire wedi hysbysu'r Clerc y bydd y gwaith yn cael ei wneud wythnos nesaf. |
| 4.2 | **Grant ar gyfer y maes Chwarae** – Bydd y Clerc yn gwneud cais i'r Gymdeithas |
| 4.3 | **Tap mynwent Salem -** Mae'r Clerc wedi cyflogi contractwr i atgyweirio'r cwteri |
| 4.4 | **Hysbysffwrdd -** Mae'r Clerc wedi cyflogi contractwr i osod yr hysbysfwrdd yn ei le |
| 4.5 | **Medrwn Mon –** Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gynghrair ar 28.11.22 gyda chynrychiolwyr o bob ardal o ward Crigyll. Bydd pawb yn casglu gwybodaeth am asedau ymunedol ar gyfer y cyfarfod nesaf |
| 4.6 | **Tywyn Trewan -** Mae'r Clerc wedi derbyn ymateb gan Tywyn Trewan yn dweud fod Mr Emyr Hughes yn cynrychioli'r ardal ac wedi gwneud ers blynyddoedd. Bydd y Clerc yn cysylltu â Mr Hughes i ofyn iddo hysbysu'r cyngor o unrhyw faterion pwysig a all godi.<br>Bydd y Clerc hefyd yn gwahodd Tywyn Trewan i gyfarfod nesaf y cyngor i ddarparu mwy o wybodaeth am y cynllun rheoli. |
| 4.7 | **Cysgodfan Bws Engedi -** Mae'r Clerc wedi derbyn sawl dyfynbris ar gyfer lloches bws. Cytunwyd i fwrw ymlaen ag Ace Shelters £3695 + TAW |
| | Llofnod……………………….Cadeirydd 08.02.23 |

| | |
|---|---|
| | |
| **5** | **ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau bydd Hyfforddiant ar gael trwy Unllais Cymru ac i unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu â'r Clerc |
| | |
| **6** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | **Cynllunio** |
| **6.1** | **FPL/2022/290** Cais llawn ar gyfer dymchwel rhan, addasu ac ehangu i'r ty presennol, dymchwel yr adeilad amaethyddol presennol yngyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau ac cadw ymestyniad i'r cwrtil yn Ty Melyn, Bryngwran - Teimlai'r aelodau y byddai'n sefyll allan mewn man agored |
| **6.2** | **FPL/2022/325** Cais llawn ar gyfer codi adeilad ffrâm borth dur, ar sylfaen slab concrit ar gyfer storio offer a pheiriannau masnach yn Ger y Bryn, Bryngwran - Teimlai'r aelodau y byddai'n sefyll allan mewn man agored |
| **6.3** | **HHP/2022/337** Cais llawn i godi sied ardd pren 12x8 tr yn / Trofannol, Lon Salem, Bryngwran – dim sylwadau |
| | **Priffyrdd** |
| **6.4** | **Cau Ffordd dros dro** – Lon Capel Hebron, Bryngwran – gwybodaeth yn unig. |
| **7** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **7.1** | Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Caerdydd – Parc Solar Traffwll - Llythyr gan Lywodraeth Cymru yn dweud bod oedi cyn dod i benderfyniad. Gadawodd y Cynghorydd J Earnshaw y cyfarfod ar y pwynt hwn |
| **7.2** | Heddlu Gogledd Cymru - Darllenwyd llythyr gan Heddlu Gogledd Cymru yn ymddiheuro am fethu â mynychu'r Gwasanaeth Coffa fis Tachwedd diwethaf oherwydd diffyg staff i fynychu'r holl wasanaethau. |
| **7.3** | Bryn Mortimer-Roberts - Trysorydd Cyfundeb Mon - Darllenwyd llythyr gan un o swyddogion Cyfundeb Môn yn dweud bod y cyflenwad dŵr yn gweithio yn y gaeaf ond dim cymaint yn yr haf. Maen nhw'n hapus i'r cyngor ddefnyddio dŵr glaw o do'r garejys ond yn cynghori bod y garejys ar werth. Unwaith y cânt eu gwerthu, ni allant gaddo y gall y trefniant barhau. |
| **7.4** | Ambiwlans Awyr Cymru - Llythyr wedi ei dderbyn gan y Gwasanaeth ynglŷn â'r bwriad i gau safle Dinas Dinlle a'r posibilrwydd o symud i Ruddlan. Cytunodd yr Aelodau i wrthwynebu'r cynnig. Bydd y Clerc yn anfon llythyr o gefnogaeth. |
| | Llofnod………………………….Cadeirydd 08.02.23 |

| | |
|---|---|
| **7.5** | Tywyn Trewan – gweler 4.6 |
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| **8.1** | Parcio Bro Mynydd - Unwaith eto cododd y Cadeirydd y problemau parcio ym Mro Mynydd. Bydd y Cyng N Evans yn cwrdd â swyddogion Tyddyn Môn a'r Cyngor Sir i geisio datrys y mater |
| **9** | **MATERION ARIANNOL** |
| | |
| **9.1** | Archwiliad Cymru 2020-2021 – Mae'r adroddiad archwilio wedi dod i law heb unrhyw wallau. Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei waith |
| **9.2** | Adolygiad ariannol – Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarnhau bod digon o incwm a chronfeydd I gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gadawodd y Cynghorydd S Jones y cyfarfod ar y pwynt hwn |
| | Cytunwyd i dalu: |
| **9.3** | Unllais Cymru £45.00 |
| **9.4** | G Owen (taliad blynyddol I Zoom) £143.88 |
| **9.5** | Praesept 2023-2024 – Cytunodd yr Aelodau i gynyddu'r praesept i £14500 ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-2024 |
| | |
| **10** | **MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF** |
| **10.1** | Eglwys Llanbeulan – wal y fynwent |
| | |
| | Llofnod………………………….Cadeirydd 08.02.23 |